
# papur priordy



## GWINLLAN A RODDWYD I’M GOFAL YW CYMRU FY NGWLAD, I’W THRADDODI I’M PLANT AC I BLANT FY MHLANT YN DREFTADAETH DRAGWYDDOL

**Buchedd Garmon – Saunders Lewis**

**Dewiswyd gan Meinir Jones**
***Gweler y rheswm am ei dewis y tu mewn***

**Rhifyn 338**
**PAPUR TACHWEDD 2020**

## Gwahoddiad i weddïo gyda'n Gweinidog

## Addasiad o weddïau Ymbil a baratowyd gan yr Eglwys yng Nghymru i'w harfer yn ystod y pandemig Covid-19

**Gweddïwn....**
**<u>Dros y cleifion</u>**
Gweddïwn dros bawb sy'n anhwylus oherwydd y coronafeirws:
yn dy dosturi, dyro iddynt nerth ac iachâd.

**<u>Dros ein gweithwyr iechyd</u>**
Gweddïwn dros bawb sy'n gweini ar y cleifion ymhob rhan o'n gwasanaeth iechyd:
y byddant yn adnewyddu eu nerth ynot ti
a bod yn gyfryngau adferiad ac adnewyddiad i'r rhai sy'n dioddef.


**<u>Dros y rhai sy'n poeni</u>**
Gweddïwn dros bawb sy'n poeni am anwyliaid, ffrindiau neu gymdogion:
galluoga nhw i ymddiried ynot ti a glynu'n dynn wrth eu gobaith.

**<u>Dros yr unig a'r ynysig</u>**
Gweddïwn dros bawb sy'n teimlo'n unig neu'n ynysig:
y byddant yn profi dy bresenoldeb cariadus.

**<u>Dros y cryf a'r gwan</u>**
Gweddïwn y byddi di'n ysbrydoli'r rhai cryf i ofalu am y rhai gwan
a gweini arnynt mewn cariad.

**<u>Dros yr Eglwys</u>**
Gweddïwn dros dy Eglwys sy'n dyheu am gael dy foli
drwy gydol yr adeg ddieithr a dryslyd hon;
drwy dy Ysbryd creadigol
tania ein dychymyg i gyhoeddi dy gariad digyfnewid mewn ffyrdd newydd.

**<u>Dros y rhai sydd mewn awdurdod</u>**
Gweddïwn dros bawb mewn awdurdod sy'n wynebu gwneud penderfyniadau anodd
a fydd yn effeithio ar lawer;
dyro iddynt ddoethineb a dewrder.



**Dros y rhai sy'n ymchwilio**

Gweddïwn dros bawb ym maes ymchwil
sy'n ceisio datblygu brechlyn i'r coronafeirws a meddyginiaethau newydd:
dyro iddynt ddoethineb, dealltwriaeth ac effeithlonrwydd yn eu hymdrechion.

**Dros fasnachwyr a gweithwyr**

Gweddïwn dros fasnachwyr a gweithwyr sy'n ofni'r dyfodol:
y bydd modd diogelu busnesau, gwarchod swyddi a chynnal teuluoedd.

**Dros y rhai sy'n wynebu caledi**

Gweddïwn dros bawb sy'n wynebu caledi ariannol:
y byddi di'n eu cynnal a'u cadw.
Cofiwn hefyd am bawb sy'n ceisio gwireddu gorchymyn Crist i ni garu ein gilydd
trwy waith banciau bwyd ac elusennau
a thrwy ddangos caredigrwydd syml.

**Dros bawb ym myd addysg**


Gweddïwn dros bawb ym myd addysg yn ystod y cyfnod ansicr hwn:
ysbrydola'r rhai sy'n teimlo'n ddiflas neu'n ddigyfeiriad,
gwarchod y bregus
a rho obaith i'r digalon.

**Dros yr ymadawedig**

Mewn tristwch cofiwn am y rhai sydd wedi colli eu bywydau yn sgil y coronafeirws.
Dyro i ni galonnau diolchgar am y fraint o gael eu hadnabod
a chryfha ein ffydd yn dy Fab a ddioddefodd drosom
ac a gyfododd drachefn mewn gogoniant
er mwyn i ni gael cyfrannu yn ei fywyd buddugoliaethus ef.

**Dros y rhai sy'n galaru**

Gweddïwn dros bawb sy'n wylo a galaru:
y cânt gysur a gobaith ynot ti.



## Gweddi i gloi

Arglwydd bywyd,
mewn cyfnod argyfyngus i'n teuluoedd a'n cymunedau,
i'n cenedl a'n byd,
trown atat mewn ffydd,
i geisio dy arweiniad
a derbyn dy fendith
gan wybod na all un dim a grewyd ein gwahanu ni oddi wrth dy gariad di
a amlygwyd yn dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd.
Gofynnwn hyn yn ei enw ef. **Amen.**

BYW Y BEIBL

## DARLLENIADAU

BYW Y BEIBL

| Mis Tachwedd | Darlleniad |
|---|---|
| Wythnos 1 | Mathew 25: 1-13 |
| Wythnos 2 | Mathew 25: 14-30 |
| Wythnos 3 | Mathew 2: 31-46 |
| Wythnos 4 – Adfent 1 | Eseia 64: 1-9 |

**Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?**
**Trowch at: cyfundeb.com?**

# DIOLCH YN FAWR

***Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad***

**YR ATHRO EMERITWS DESMOND A MRS NANSI HAYES**

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***

**Dr Myfanwy Jones…**



# Gwasanaeth Diolchgarwch
# Capel y Priordy
# *4 Hydref 2020*

Yn ôl geiriau anfarwol y cartŵn *Superted*, *'nid gwasanaeth diolchgarwch cyffredin mohono bellach... ond super-cwrdd-diolchgarwch*'! A dyna a gafwyd yn wir yng Nghapel y Priordy eleni, diolch i drefniadau arloesol ein Gweinidog.




Yn gyntaf, cafwyd y casgliad blynyddol tuag at y banc bwyd, ond eleni roedden ni'n gosod ein cyfraniadau ym mŵt car Beti-Wyn, a hwnnw o dan darpolin rhag y glaw!

Yn dilyn y cyhoeddiadau gan Jayne Woods, cafwyd darlleniad o'r Wythfed Salm gan deulu Huw a Mwynwen Jones. Adroddodd pawb eu rhan o dan arweiniad celfydd Elliw, yn sôn am fawredd Duw. Gwych iawn.





Yn dilyn y salm, cafwyd darlleniad gan y teulu Woods: Stori'r had yn tyfu o bennod 4, Efengyl Marc, a'r had yn symbol o waith Duw yn ein calonnau, yn dechrau'n hedyn bach ac yn tyfu'n blanhigyn iach o ffydd y tu mewn i ni. Cafwyd darlleniad clir ac ystyrlon gan Jayne, Ethan ac Iestyn. Gwaith tîm ardderchog.



Tro'r teulu Williams oedd hi nesaf i egluro i ni'r broses o dyfu india corn, o hedyn yn blaguro, y paill yn ffrwythloni'r cob a chreu 300 i 400 o gorn melys ar bob cob. Fel yr had yn efengyl Marc, mae'r gwaith yma'n digwydd yn dawel fach heb i ni sylweddoli. Cafwyd darlleniadau bywiog a chlir oddi wrth Llinos, Miriam ac Olwen a'r cyfraniad

cyntaf (o nifer, ddwedwn ni) oddi wrth y cyw melyn, Gwydion. Hyfryd oedd gweld y plant yn mwynhau cyfrannu, a'r mwynhad hynny'n cael ei drosglwyddo i'r gynulleidfa, heb os.

Daeth y teulu Snelson i'r pulpud nesaf gyda gweddi o ddiolch i Dduw am haul a dŵr a bwyd. Darllenodd y teulu cyfan eu rhannau'n wych, gyda Caleb a Gwilym yn dangos y ffordd i'w brawd bach, Osian, a wnaeth ei jobyn yn wych, yn ddim ond pedair oed! Da iawn wir fechgyn, (heb anghofio Sioned, wrth gwrs!).



Yn olaf, cafwyd perfformiad hyfryd gan Tomos, Cadi ac Ifan. Roedden nhw wedi gwneud poster o'r gair cynhaeaf, ac fe ddiolchon nhw i Dduw am bethau oedd yn dechrau gyda llythrennau'r gair. Roedd y tri wedi dysgu eu gwaith yn wych ac wedi adrodd yn glir ac yn ddeallus, ac wedi dod i ben â gwneud y cyfan heb oedolyn hefyd! Arbennig.



Cafwyd gair â'r plant gan ein Gweinidog wedyn. Adroddodd Beti-Wyn stori am ferch fach oedd mor falch o gael gwydr hyfryd o ddŵr, iddi fynd ati i ddiolch iddo! Cafodd ei chywiro gan y dŵr a oedd yn awgrymu mai i'r tap y dylai ddiolch! Er mawr syndod, roedd y tap, a oedd hefyd yn medru siarad, yn egluro mai dim ond arllwys y dŵr oedd ei waith e ac mai'r beipen fach oedd yn haeddu'r diolch. Wrth gwrs, anfonodd y beipen y ferch fach i ddiolch i'r beipen fawr ac yntau wedyn i'r llyn. Wedi meddwl bod ei thaith ar ben, diolchodd y ferch i'r llyn, ond roedd y llyn o'r farn mai'r glaw oedd y tu ôl i'r dŵr llesol. Y cymylau, yn ôl y glaw, oedd wrth wraidd y daioni fodd bynnag.



Ond, wrth gwrs, eglurodd ein Gweinidog mai Duw oedd yn wir y tu ôl i'r cyfan. Awgrymodd y bydden ni'n medru olrhain popeth yn ôl ar hyd ei daith ac mai Duw fyddai y tu ôl i'r cyfan.



Fe adawon ni Gapel y Priordy yn ddiolchgar iawn am gyfraniadau hyfryd y teuluoedd oll, o'r lleiaf i'r hynaf, ac fe gafodd y plant i gyd botel o ddŵr croyw wrth adael i'w hatgoffa i fod yn ddiolchgar am y cynhaeaf a phob dim arall.

**PANED A SGWRS DROS ZOOM**

**Bore Mercher, 11 Tachwedd 2020 am 11 o’r gloch**




**Cyfle i sgwrsio dros baned**

**PANED CYN NOSWYLIO DROS ZOOM**

**Mae’r dydd yn fyr iawn dros fisoedd y gaeaf ac oriau hir o dywyllwch.  Mae’r nos yn hir. Beth am ymuno â ni am sgwrs fer a phaned cyn noswylio?**

**Nos Fercher 25 Tachwedd 2020 am 7.30 yr hwyr**

***Cewch y dolenni ar gyfer y ddau gyfarfod mewn da bryd***

## MENTER NEWYDD YN DENU NIFEROEDD

### Cymdeithas a Gweddi

**Ar Fore Sul 25 Hydref 2020 am 10 o’r gloch, cyn yr Oedfa Ddigidol, cynhaliwyd cyfarfod gyda’n Gweinidog.  Ymunodd 31 sgrîn â Zoom, tua 45 o aelodau’r Ofalaeth i gyd. Bu’n gyfle i ni weld ein gilydd wyneb yn wyneb, sgwrsio a chyfnewid newyddion cyn i’n Gweinidog gloi’r cyfarfod drwy gynnig Gweddi o Eiriolaeth yn gofyn i Dduw helpu pobl sy mewn angen ac yn dioddef y dyddiau hyn yng nghanol y pandemig.**

**Yna, am 10.30, ymunwyd â’r Oedfa Ddigidol. Yn nhymor y Diolchgarwch canolbwyntiodd ein Gweinidog ar Ddameg yr Hedyn Mwstard, gan ddangos fel mae un hedyn bach yn gallu troi’n gynhaeaf mawr. Ein her ni yn y cyfnod anodd hwn yw meddu ffydd yr hedyn bach fel y gall ein gweithredoedd cymwynasgarol, pa mor fach bynnag ydynt, droi’n bethau mawr trwy ras Duw a chyfoethogi’n bywyd a’n byd.**

**CASGLIAD OLAF AM Y FLWYDDYN**
**Y SUL OLAF AR GYFER DERBYN EIN CYFRANIADAU AM ELENI YW**
**13 Rhagfyr 2020**

# DIOLCHGARWCH

**Yn lle rhoi diolchgarwch dros wythnos o hyd,
dylai diolch barhau dros y flwyddyn i gyd.**

**Diolch am ffordd sydd yn mynd dros y mynydd
i bob un a fynn gael dilyn ei drywydd.**

**Diolch am fôr ac am dir ac am awyr
ac am werth pob golygfa na allwn ei mesur.**

**Am haul, ac am law, a phob math o dywydd
ac am fod yn heulwen ynghanol y stormydd.**

**Ond wedi'r dilyw a'r duwch llaith
diolch am enfys a'i lliw dros y daith.**

**Diolch am flodau, eirlysiau, briallu
yn addo bod gwanwyn ar fin dod yfory.**

**Am gael amser i fedi holl ffrwythau'r ddaear,
am nodd yr afalau ac am flas y mwyar.**

**Am weld ambell i drysor wrth fynd i grwydro
ac am le i eistedd wrth inni fyfyrio.**

**Am olion ddoe dros ein cilcyn o dir
ac am neges i'n hannog i gofio'r gwir.**

**Am brydferthwch ein daear, ac am bili pala,
am arwyddion gobaith ynghanol yr eira.**

**Am gelf, ac am waith, ac am wlad i'w chadw
am bob Cwm Pennant, am bob trai a llanw.**

**Diolch am liw cyn i'r gaeaf ddod,
ac am dwf yn y llefydd caleta'n bod.**

**Am y llyn, am y mynydd a fu erioed,**
**Am y lôn fach dawel sy'n mynd drwy'r coed.**

**Am gwmni yr adar cyn i'r tywydd droi**
**ac am gwmni ein gilydd er i'r cwmwl grynhoi.**

**Am gael cyrraedd y copa er blino'n llwyr,**
**am ofalu amdanom o fore hyd hwyr.**

**am gadw cyswllt drwy'r blynyddoedd maith,**
**ac am fod yn gwmni ar hyd y daith.**

## Tudur Dylan Jones

***Bu'r gerdd yn rhan o'r gwasanaeth yn y Priordy dan arweiniad Tudur Dylan Jones ar Ddydd Sul 11 Hydref 2020. Fe'i cyflwynwyd hefyd yn y gwasanaeth digidol yn hwyrach yr un dydd.***

## Y WE WEDI CYRRAEDD!



**Mae'r we wedi cyrraedd Y Priordy!**

**Diolch yn fawr iawn i Elis Jones am ei gyngor a'I waith ymchwil manwl**

**Bydd y We yn gaffaeliad mawr i ni, yn enwedig ar gyfer darlledu oedfaon yn fyw ar gyfer y sawl sy'n hunanynysu fel y bônt yn rhan o'n cynulleidfa**

## Alison Parsons…



### BORE COFFI MACMILLAN

Eleni, fel sydd wedi dod yn arfer bellach ar ddechrau mis Ionawr, mae Dydd Gwener olaf mis Medi'n cael ei gofnodi yn y dyddiadur: '**Bore Coffi MacMillan'.**

Os ydw i'n hollol onest, dw i wedi ystyried a ddylwn i orffen yr arferiad, gan feddwl efallai bod pobl wedi syrffedu ar roi, neu bod gormod o foreau coffi. Wedi'r cyfan, mae nifer o bobl yn mynychu mwy nag un. Ai dod o ran teimlo dyletswydd maen nhw?

Beth bynnag, wedi'r pendroni, bwrw 'mlaen oedd y bwriad, a hynny tan i'r pandemig gyrraedd. Newidiodd y cwestiynu wedyn: Ydy'r rheolau'n caniatáu hynny - a rheiny'n newid bron yn ddyddiol? Fedrwn ni gynnal bore coffi a chadw pawb yn saff? Wedi gofidio a newid meddwl sawl gwaith (reit lan tan y funud olaf!) dyma benderfynu cynnal **Coffi yn y Car.**



Roeddwn yn poeni wedyn y byddai neb yn dod, efallai, ac yna'n poeni y byddai gormod yn dod!! Roeddwn ar y ffôn neu'n tecstio Beti-Wyn sawl gwaith y dydd: *'Paid â gwneud poster rhag ofn i bobl ei weld e!' 'Paid â'i roi e ar Facebook, so ni moyn neb i'w weld e!'*. Druan o Beti-Wyn, mae ganddi amynedd. Yna bues i'n poeni am y tywydd a'r raffl!!

Buon ni'n ffodus iawn fod y Cwins yn Abergwili wedi rhoi caniatâd i ni ddefnyddio'r gegin a dw i'n ddiolchgar iawn iddynt.

Fe wawriodd bore Dydd Gwener, dechrau da…y tywydd yn braf….ac yna…. dyma fi'n gosod y larwm i ganu yn y Cwins, panig llwyr a sawl galwad ffôn!!

Yna cyrhaeddodd y gwirfoddolwyr selog ac i ffwrdd â ni heb wybod

beth i'w ddisgwyl. Dyma'r ceir yn dechrau cyrraedd ac fe weithiodd popeth fel wats. Cyrhaeddodd y Maer ac roedd yn falch iawn o gael mynychu rhywbeth go iawn gan fod y rhan fwyaf o achlysuron wedi bod yn rhai digidol eleni.

Trwy gydol y bore roedd amlenni'n cyrraedd gyda chyfraniadau gan y rheiny yn y ceir ac eraill.

Roedd y bore wedi bod yn llwyddiant mawr gan i bawb fwynhau ac wedi gorffen a chael amser i gyfrif, ces fy syfrdanu. Roedd dros £700 - doeddwn i ddim yn medru credu gymaint y caredigrwydd! Roeddwn yn emosiynol iawn i feddwl am yr ymdrech a wnaeth pawb. Cefais nifer o negeseuon hefyd gan y rhai nad oedd yn medru bod yno gan nad oedden nhw'n gyrru ac yn methu â rhannu lifft oherwydd rheolau pellter cymdeithasol. Roedden nhw'n dymuno cyfrannu ac felly es i i nôl eu cyfraniad yn y prynhawn. Roedden nhw'n dweud gymaint maen nhw'n disgwyl ymlaen at y bore coffi bob blwyddyn ac yn mwynhau'r sgwrsio a'r cymdeithasu.

Ar y bore dydd Sul canlynol, wrth ddrws y Capel, dyma fi unwaith eto'n cael fy synnu wrth dderbyn cymaint o amlenni a chyfraniadau. Unwaith eto wrth gyfrif roeddwn i'n teimlo'n emosiynol ac yn ostyngedig iawn wrth ddeall pwysigrwydd y cyfle i gyfrannu.

Roedd hi'n gas gen i fy mod i wedi amau a fyddwn i'n cynnal y bore coffi ai peidio. Deallais gymaint yn fwy na chyfle i godi arian yw'r bore coffi yng nghalendr yr ofalaeth ac mor bwysig yw teulu'r Capel.

**Cyfanswm eleni oedd £1,205, ac mae'r cyfanswm dros y blynyddoedd nawr yn £12,674.38.**

Y flwyddyn nesa, fe fyddwn yn ôl! Bydd stondinau a raffl a chyfle i gymdeithasu unwaith eto, ac ni fydd unrhyw amheuaeth gen i wrth roi'r dyddiad yn y dyddiadur newydd.

**DYDD GWENER OLAF MIS MEDI 2021 -** welwn ni chi 'na**.** Diolch i bawb a helpodd trwy weini coffi, rheoli'r traffig a chadw pawb yn ddiogel.

***Llongyfarchiadau mawr i Alison a'i thîm a diolch iddyn nhw am ddal ati a goresgyn pob math o anawsterau!***

# Y Cynghorydd a'r Cofid

***Gofynnodd Papur Priordy i Peter Hughes Griffiths sut oedd ei fywyd a'i waith fel Cynghorydd Sir wedi newid yn sgil y pandemig. Dyma'i ymateb…***



***FEL*** cynghorydd sir mae dwy elfen bwysig i'm cyfrifoldebau. Yn gyntaf rwy'n gynghorydd dros Ward y Gogledd, Tref Caerfyrddin, sy'n ddaearyddol fras yn ymestyn o Lon Pisgwydd a Threfechan bob cam i bendraw Heol Bronwydd, ac yn cynnwys 3863 o etholwyr.

Fel arfer byddaf yn ymateb i wahanol faterion o fewn y ward ac yn ymweld â phobl a lleoliadau dan sylw. Fe ddaeth hynny i gyd i ben gyda dyfodiad Cofid-19 a'r clo mawr. Heb os, roeddwn yn gweld eisiau'r cyfle i gwrdd â phobl i drafod materion a chasglu barn. Erbyn hyn mae cynllun i adfer ein gwasanaethau'n cael ei weithredu, ond mae'r cyfan yn dibynnu'n llwyr ar sefyllfa Cofid-19.

Yn ail, rwy'n aelod o Fwrdd Gweithredol neu Gabinet y Cyngor a'r cyfrifoldeb o benderfynu ar gynlluniau i ddelio gyda'r pandemig yn ein dwylo ni. Mae 10 aelod ar y Bwrdd Gweithredol hwn yn Sir Gaerfyrddin a phob un â chyfrifoldeb am feysydd arbennig. Yn fy mhortffolio i mae Diwylliant a'r Iaith Gymraeg (Llyfrgelloedd, Amgueddfeydd a Theatrau), Hamdden a Chwaraeon (Canolfannau Hamdden a Phyllau Nofio a Pharciau Gwledig a Meysydd Chwarae), a Thwristiaeth. Rwyf hefyd yn Llysgennad ar ran y Cyngor Sir i Gynghorau Tref a Chymuned Sir Gâr.

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Mae'r defnydd gan y cyhoedd o'r adnoddau yr wyf fi yn gyfrifol amdanyn nhw yn uchel iawn. Er enghraifft, fe ddefnyddiodd dros filiwn o bobl ein gwasanaethau Llyfrgellyddol yn ystod 2019. Mae ein Canolfannau Hamdden a Chwaraeon yn llefydd tu hwnt o brysur a Pharc Gwledig Pembre a'i holl gyfleusterau'n denu miloedd yn wythnosol.  Ond, pan ddaeth y clo mawr oherwydd y pandemig, fy nghyfrifoldeb cyntaf, ac anodd, oedd cau'r holl wasanaethau hyn er diogelu ein staff a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Bu’r cau am fisoedd yn golled ariannol aruthrol. Fe drowyd Canolfannau Hamdden Caerfyrddin a Llanelli yn ddarpar Ysbytai Enfys rhag ofn y byddai eu hangen.

Gorfod i ni adleoli staff o wahanol adrannau i ymateb i anghenion y cymunedau ar draws y Sir, gan drefnu pecynnau bwyd mewn canolfannau a’u hebrwng wedyn i bob cornel o’r sir.

Rhaid cofio mai Llywodraeth Cymru oedd yn gwneud y penderfyniadau ac yna’n trosglwyddo’r cyfrifoldeb am eu gweithredu i ni fel Cyngor Sir. Roedd ein grŵp Aur a’n Grŵp Arian, sef ein Prif Swyddogion, yn cyfarfod ac yn cynllunio a ninnau wedyn fel aelodau o’r Bwrdd Gweithredol yn derbyn a chymeradwyo’r holl weithgarwch a oedd ac sydd o hyd yn cynnwys rheolau fel cau llefydd trwyddedig oherwydd nad oedden nhw’n dilyn y rheolau cywir.

Rhaid i mi gyfaddef fy mod wedi cael cryn syndod a sioc wrth sylweddoli ar ddifaterwch a hunanoldeb nifer o reolwyr a pherchnogion sefydliadau trwyddedig. Mwy o syndod fyth oedd deall trwy’r adroddiadau am ffordd o fyw carfan o bobl yn ein cymdeithas, a’n bod ni’n gwybod fawr ddim am ‘economi’r nos’ ar draws Sir Gaerfyrddin sy’n gwbl glwm wrth yfed alcohol a thrwy hynny’n hidio dim am iechyd a diogelwch personol neb. Mae hon yn ‘ffordd o fyw’ gyffredin bellach o fewn ein cymdeithas ac fe welson ni fel Bwrdd Gweithredol bod y feirws yn cael ei wasgaru’n gyflym trwy’r dull hwn o gymdeithasu.

Mewn gair, gorfod i ni fel Cabinet a’r holl staff roi heibio’r rhan fwyaf o waith arferol y Cyngor Sir a chanolbwyntio’n llwyr ar ymladd y pandemig. Rhaid edmygu dewrder ein staff, ac os mai ni fel Bwrdd Gweithredol a Phrif Swyddogion oedd yn gwneud y penderfyniadau, staff y Cyngor, fel ein gofalwyr ac eraill oedd yn gorfod gweithredu’r penderfyniadau hynny.




Nid cwrdd wyneb yn wyneb yn ôl yr hen drefn wnai’r Bwrdd Gweithredol a’r swyddogion, ond yn hytrach dros y we ar raglenni fel *Zoom* a *Teams*. Doeddwn i na fawr neb arall wedi clywed am y dulliau hyn o gysylltu a chyfathrebu ar ein cyfrifiaduron, ond erbyn heddiw mae bron pawb yn eu defnyddio. Bellach o flaen fy sgrin Laptop neu’r IPad rwy’n rhan o bwyllgor neu gyfarfod yn ddyddiol, ac mae’r penderfyniadau’n cael eu gwneud fel cynt ond nid yn Neuadd y

Sir. Heb os, hwn oedd y newid mwyaf a ddigwyddodd o fewn llywodraeth leol, a bellach o fewn ein cymdeithas yn gyffredinol.

Mae'r cam technegol hwn yn gam pwysig iawn ymlaen ac yn sicrhau nad oes angen i neb deithio mewn car gan gynhyrchu CO2, ac mae'n achub costau ac amser. Mae Cofid-19 wedi dangos bod ffordd arall o weithio - un mor rhwydd a diffwdan. Heb os, hwn oedd y newid mwyaf i mi yn fy ngwaith fel cynghorydd, ac nid wyf wedi bod yn fy swyddfa yn Neuadd y Sir ers 6 mis. Roedd 30% o staff y Cyngor yn medru gweithio o adref, ac eto'n cyflawni eu dyletswyddau, ac mae gwaith y Cyngor yn mynd rhagddo'n ddigon derbyniol wrth i ni ar hyn o bryd geisio ailgyflwyno ein gwasanaethau ac ailagor ein hadeiladau at ddefnydd y cyhoedd.

O'm safbwynt personol i fe achosodd y clo beth ymdeimlad o rwystredigaeth i mi am fod cymaint o ddatblygiadau ar eu hanner neu ar fin dechrau, a hynny'n bennaf yn y maes adeiladu. Am chwe mis o leiaf bu'r cyfan bron ar stop yn gyfan gwbl. Mae'r 'Amgueddfa Cyflymder' newydd ym Mhentywyn, gyda hostel i gysgu 40 ar fin y traeth a maes parcio eang, heb ei orffen. Bydd to a ffenestri newydd i'r Amgueddfa Sirol ym Mhlas yr Esgob yn Abergwili ynghyd â gwelliannau eraill y tu fewn a thu allan gan Ymddiriedolaeth Dyffryn Tywi yn barod yn y flwyddyn newydd. Mae cae hoci a phêl-droed astrotyrff a chyrtiau tenis newydd sbon wrth y Ganolfan Hamdden yn Nhre Ioan ynghyd â thrac rhedeg newydd a meysydd parcio ychwanegol. Gweddnewidiwyd Llyfrgell Tref Caerfyrddin ac oni bai am Cofid-19 fe fydden ni wedi agor 'Y Stordy', sef yr Archifdy newydd sbon gwerth £2filiwn wrth y Llyfrgell. Yna, ar draws y ffordd, mewn perthynas â Chyngor y Celfyddydau, byddwn yn datblygu Oriel Myrddin, gyda mynedfa newydd o Heol y Brenin, yn Ganolfan Gelfyddydol i Orllewin Cymru.



***O*** edrych yn ôl ar y flwyddyn 2020, ac ar waethaf yr anawsterau a ddaeth yn sgil Cofid-19 fe lwyddwyd i gynnal a datblygu llawer o fewn fy mhortffolio i ar Gyngor Sir Caerfyrddin. Rhaid edrych ymlaen yn awr at ailgydio yn y normalrwydd newydd a'r dull newydd o weithio wrth gynllunio a thrafod a gwneud penderfyniadau a fydd o les i fywydau pawb yn Sir Gaerfyrddin.

**Hefina Phillips….**



## CYFARCHION O GANADA!

***HELO, BAWB***. Cyfarchion o Oakville, Ontario, Canada. Ble mae Oakville, medde chi? Ar Lyn Ontario, ar y ffordd rhwng Toronto a Niagara Falls.

Adnabyddir fi gan nifer ma's 'ma fel "y ferch o Gwmgïedd". Falle nad yw pentre Cwmgïedd yn adnabyddus i chi chwaith! Ym mhen uchaf Cwm Tawe mae'r pentre bach 'spesial' hwn ac yn enwog fel y lle cafodd Daniel Protheroe a J T Rees eu geni. Yng Nghwmgïedd ffilmiwyd "*The Silent Village*" ac, yn fwy diweddar, y rhaglen "*Licyris Olsorts*". Pam mae merch o Gwmgïedd" yn byw yn Oakville? Cwestiwn da! Gwaith y gŵr! Buon ni fel sipsiwn yn symud o le i le / o wlad i wlad am nifer o flynyddoedd, ond nawr dw i wedi setlo yma gan fod y plant, Siân ac Alun, a'r wyrion – Alastair Huw, Megan, Rhys a Morgan, i gyd yn byw ar bwys.

Ar hyn o bryd rydyn ni, fel chithau, yn gwneud ein gorau i ymdopi â'r tipyn feirws yma ac un o'r pethau sy'n codi 'nghalon yw mynd o gwmpas i edmygu gerddi pobl! Dw i'n mwynhau'r ardd ond rhaid cyfaddef bod dim llawer o siâp arna i fel garddwraig / cynllunydd! Gardd maint stamp sy' 'da fi, a dweud y gwir, ond dwi'n plannu fel rhywun â dwy erw! Stwffo gormod o blanhigion i'r gwelyau, plannu blodau sydd angen haul mewn adrannau cysgodlyd, talu crocbris am blanhigion sy'n dal i ymdrechu, a diffyg "gweledigaeth"! Diolch i S4C Rhyngwladol dw i'n dilyn Aled Sam o gwmpas gerddi prydferth Cymru - ond heb lwyddo i ddysgu'r un wers oddi wrth y garddwyr gwych hyn.



Yn ffodus iawn dw i'n byw yn agos iawn at Lyn Ontario, ac un o'r pleserau mawr dyddiol yw mynd i wneud yn siŵr bod y llyn yn dal yno, a rhifo'r elyrch! Mae llwybr cyhoeddus o flaen y rhes dai sy'n cefnu ar y llyn, ac mae pob un o berchnogion y tai 'ma yn arddwyr penigamp. Am godi calon, felly! Yn un o'r tai mae pâr o Gymru'n byw - wedi cwrdd ym Mhrifysgol

Abertawe ac yna symud i Ganada. Dw i erioed wedi gweld y fath arddangosfa o gennin Pedr ac mae Jane a Trevor yn gwybod y bydda



i'n dod heibio bob dydd yn ystod mis Mawrth ac yn hiraethu! Beth am y cennin Pedr yn fy ngardd i? Does dim ateb gyda fi, yn anffodus! Wedi rhoi'r ffidil yn y to fanna.

Yn un o'r gerddi eraill mae'r perchennog yn tyfu "milkweed" ('sdim syniad gyda fi beth yw hwnna yn Gymraeg. Falle bod dim "milkweed" yng Nghymru.) Y pwrpas yw denu'r pili-pala / ieir bach yr haf "Monarch" ar eu ffordd o'r Gogledd nôl i Mecsico dros y gaeaf. Er taw gardd fach sydd ganddo fe hefyd, mae wedi ei chynllunio i'r dim a dw i'n edrych yn eiddigeddus arni bob tro wrth fwynhau'r pili-pala. O leia fe all ddweud ei fod yn rhoi oriau o bleser i bobl fel fi.

A nawr mae'r dail yn dechrau troi lliw. Pan fydd yr haint 'ma heibio a phawb yn gallu teithio unwaith eto, rhowch Canada yn yr Hydref ar eich rhestr. Mae'r lliwiau'n wirioneddol odidog.

Wrth gwrs mae digon o bethau eraill i'm cadw'n brysur a dw i, yn ôl fy wyres Morgan yn methu dweud "*Na, dim diolch*" pan ofynnir i fi ymuno â phwyllgor sydd ag unrhyw beth i'w wneud â materion Cymreig yma yng Nghanada a'r Unol Daleithiau. Ar dop y rhestr ar hyn o bryd mae becso am ddyfodol Dewi Sant, yr unig Eglwys Gymreig sydd ar ôl yng Nghanada. Lleihau mae'n rhifau a does neb yn ymfudo o Gymru i Ganada bellach, hyd yn oed cyn y Cofid. Rydyn ni wedi bod heb weinidog Cymraeg ers dros ddeng mlynedd bellach a bregus iawn, iawn yw'n dyfodol. Dal i gwrdd yn rheolaidd mae'n pwyllgor a mawr obeithiwn y byddwn wedi gallu dod i benderfyniadau yn fuan. Fel ym mhob man arall, dyw'r Cofid ddim wedi helpu dim! O leia, ym mis Medi, fe ddechreuon ni ailymgynnull ar fore Sul. Ond dim canu! Does dim sefyllfa lawer mwy truenus na gwahardd y Gymry rhag canu!



Mae Eglwys Gymraeg Dewi Sant wedi bod yn ganolfan bwysig i Gymry Toronto a'r cylch er 1907 – nid dim ond lle i addoli yn ein

mamiaith ydy hi ond lle i gymdeithasu, cynnal cyngherddau, eisteddfodau, nosweithiau llawen, cinio arbennig, parti Nadolig, ac ati. Mae rhai ohonon ni'n teithio dros 60 km i gyrraedd 33 Melrose Avenue yn Toronto.  Ydy hynny'n werth yr ymdrech?  Wel, ydy wrth gwrs!  Ond does dim gwasanaethau Cymraeg!

Diolch i raglenni Beti-Wyn dw i'n gallu gwrando ar oedfa hyfryd yn fy mamiaith.  A bob tro rywfodd, rwysut mae hi'n llwyddo i 'daro deuddeg'!!  Llongyfarchiadau hefyd i'r person/y bobl dechnegol gan fod gweld y golygfeydd o gwmpas eich ardal yn codi hiraeth.  Cyn gynted ag ydw i'n derbyn y fideo dw i'n ei hala 'mlaen at ffrindiau / aelodau Cymraeg – gan gynnwys un o'n haelodau sy'n gant oed. Pan gyrhaeddodd y gwasanaeth o Fancyfelin roedd rhaid ei ddanfon ar unwaith at ffrind yn ardal Boston - Delyth Davies (Evans gynt).  Mae ei theulu'n dal i fyw yn y pentre.  Mewn byr o amser daeth neges gan Delyth – yn ei dagrau. *"Wi'n shwps*" meddai, gan gario 'mlaen i lefen. (Do'n i heb glywed y gair *"shwps*" ers tro byd, ond mae'n disgrifio i'r dim, on'd yw e!)



Diolch Beti-Wyn.  Mae'ch neges yn cyrraedd pen draw'r byd ac mae'r bobl sy'n derbyn y fideos wrtho i'n eu gwerthfawrogi ma's draw. Cadwch recordio, plîs. Ond fe sylweddolwch, dw i'n siŵr, bod y gwasanaethau Cymraeg hyn yn tanlinellu maint ein colled ni nawr yn Dewi Sant.

OAKVILLE

***FE WNAWN*** ein gorau i sicrhau dyfodol i'n cymuned.  Yn y cyfamser, dymuniadau cynhesaf atoch chi, bawb, a chadwch yn iach.

***Diolch yn fawr iawn i Hefina Phillips (Jones gynt) am yr erthygl ddiddorol hon. Mae Hefina, gyda llaw, yn ail gyfnither i Malcolm Jones, gŵr Eurwen, ac un o gyfeillion gorau'n Gofalaeth. Dymunwn yn dda i Hefina a'i theulu yng Nghanada - a phob llwyddiant hefyd i'r gweithgareddau crefyddol a diwylliannol Cymraeg yno.***

***ON – Beti-Wyn yw'r technegydd hefyd!!***

**Carys Morgans, Swyddog Cyswllt y Gefeillio**
***yn cyflwyno...***

# NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON

## LLADRAD

Yn dilyn y lladrad a'r difrod yn y capel a'r festri, mae'r gwaith adnewyddu'n mynd rhagddo. Wrth gwrs, mae cyfyngiadau Covid-19 wedi arafu'r broses. Erbyn hyn, mae drysau newydd wedi'u gosod yn y festri a chloeon newydd cadarn ar bob un. Gobeithio y bydd hyn yn cadw'r adeilad yn ddiogel yn y dyfodol.




## DIOLCHGARWCH

Fel arfer ar drydydd Sul mis Hydref y bydd Salem yn cynnal oedfa Diolchgarwch. Bydd y plant / y bobl ifanc yn dod â blodau neu ffrwythau ac yn llenwi bocs 'Pringles' efo arian at elusen.  Eleni, gwaith Cymorth Cristnogol yn y Dwyrain Canol oedd yr achos da a ddewiswyd, gan feddwl am y teuluoedd sydd wedi colli eu cartrefi oherwydd bod JCB / Bulldozer Israel wedi'u dymchwel.




## CYNGOR EGLWYSI CAERNARFON

Oherwydd nad oedd modd ymgynnull yn y ffordd arferol, penderfynodd Cyngor Eglwysi Caernarfon drefnu gwasanaeth diolchgarwch *Drive-In* a daeth ymhell dros drigain o geir i'r maes parcio i gydaddoli a chanu o'u ceir.

## DIOLCHGARWCH 2020

Fe ddaeth y cynhaea' yn saff i'r sguboria
A'r grawn at y gaea sy'n glyd o dan glo
Ond dyma ein problem, faint bynnag a wingem
Mae pyrth yr hen Salem 'di selio.

Ac felly gyfeillion, rhaid cyfri'n bendithion
Gan aros yn ffyddlon i'r moddion drwy'r we -
Pan gilia'r pla erchyll, a'r holl fisoedd tywyll,
Mor braf bydd ailgynnull ein cartre!

*Diolch i Ifor ap Glyn am y penillion a luniwyd yn arbennig ganddo i'r Llinyn Arian.*

## IS-BWYLLGOR YR ADEILADAU





**Mae'n dda dweud fod dau aelod wedi derbyn gwahoddiad i ymuno ag Is-bwyllgor yr Adeiladau, sef Dennis Jones ac Emlyn Schiavone. Mae hynny mewn ymateb i gais yr Is-bwyllgor, dan gadeiryddiaeth Huw Jones, sy'n cyflawni gwaith mor arbennig yn gofalu am gyflwr a diogelwch ein hadeiladau. Pob dymuniad da i Dennis ac Emlyn wrth y gwaith!**


## GAIR O DDIOLCH



Mae Gwasanaethau Digidol yr Ofalaeth, dan ofal ein Gweinidog, yn cyrraedd cylch eang o bobl y tu hwnt i'n haelodau. Maent yn hynod o boblogaidd ac yn denu niferoedd uchel iawn.

Mae'n gyfle i ni ddiolch yn fawr iawn i rai o'r cyfeillion hyn, ymhell ac agos, am eu rhoddion caredig at gostau cynnal y gwasanaethau. Gwerthfawrogir hynny'n fawr.





**DALIWCH ATI I GASGLU STAMPIAU A CHETRYS**

## DIOLCH AM YR HELP!





**Tipyn o dasg yw paratoi Taflenni Gwaith ar gyfer ein plant o Sul i Sul yn ein hoedfaon teulu. Bu'n Gweinidog yn gwneud hyn yn ffyddlon ond rydyn ni'n ddiolchgar iawn I Jayne Woods a Mari Jenkins am fod mor barod i roi help llaw iddi gyda'r gwaith pwysig hwn.**

## Cynhadledd Dydd Gweddi Rhithiol

***DAN*** amgylchiadau arferol fe fyddai trefniadau ar y gweill ar hyn o bryd ar gyfer dwy gynhadledd, y naill yn y gogledd a'r llall yn y de, i drefnu Dydd Gweddi'r Byd 2021.

Er na fydd cyfle i gwrdd wyneb yn wyneb eleni oherwydd argyfwng Covid-19, eto, mae trefniadau ar y gweill i gynnal **Cynhadledd rhithiol** dros Zoom. Y dyddiad fydd **Dydd Iau 26 Tachwedd 2020 rhwng 10.30 a 12.30** dan gyfarwyddyd Gwen Wildman, ein cynrychiolydd ar y Pwyllgor Cenedlaethol. Gwahoddwn chi'n gynnes iawn i'r gynhadledd. Os ydych yn dymuno ymuno gofynnwn yn garedig i chi gysylltu â Margaret Morgan dros ebost ar margaretmaudmorgan@gmail.com **erbyn 12 Tachwedd** er mwyn derbyn dolen i'r gynhadledd. Bydd y ddolen yn cael ei hanfon erbyn dechrau'r wythnos 22 Tachwedd.



Dyddiad y Dydd Gweddi yn 2021 yw Dydd Gwener 5 Mawrth 2021. Paratowyd y Gwasanaeth gan Chwiorydd Cristnogol Vanuatu a'r thema yw **'Adeiladwch ar Sylfaen Gadarn'**. Gofynnwn am eich gweddïau dros Ferched Vanuatu sydd mewn sefyllfa lawer gwaeth na ni. Gwnawn ein gorau i gynnal ein gwasanaethau ar 5 Mawrth 2021, ond os na fydd hyn yn bosib, gellir naill ai gynnal oedfa dros Zoom neu ddewis dyddiad arall a fydd yn gyfleus i chi.

***YNG*** nghanol yr holl ansicrwydd dymunir pob llwyddiant i chi wrth drefnu ar gyfer 'Dydd Gweddi 2021 Vanuatu'. Long God Yumi Stanap. Yn Nuw y Safwn.

Parchg Beti-Wyn James
Parchg Carys Ann
*Swyddogion Cyhoeddusrwydd*

**Nodyn**
**gan**
**Rhiannon Davies, Llan Ffestiniog**

**Mae'n amlwg i Rhiannon gael blas ar ddarllen erthygl Peter Hughes Griffiths, sef *Mwg Te Evan Roberts*, yn ein rhifyn diwethaf – Hydref 2020.**

**Anfonodd atom lun o Gwpan Evan Roberts.**
**(Roedd soser a phlât hefyd, mae'n debyg, ond ni chafodd Rhiannon yr un o'r rhain).**

**Mae'n gwpan arbennig iawn – cwpan mwstas! Roedd sil gyfrinachol y tu mewn i'r cwpan ar siâp hanner lleuad gyda thwll ynddi i yfed drwyddo – gan gadw mwstas yn sych!!**

**Mae'n debyg i'r cwpan gael ei ddyfeisio yn ail hanner y 19g gan y crochenwr o Sais Harvey Adams.**





**Diolch eto i Rhiannon a hefyd am ei geiriau caredig amdanom fel eglwys. Mae Rhiannon yn derbyn y Papur drwy Gwynn Bowyer, ffrind i'r teulu ers dyddiau ysgol.**


**YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?**
**Cyswllt**
**PHILIP JONES**
**Trysorydd**
**☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk**



**Y BOCS BACH BROWN**



**Mae'n bleser gen i ysgrifennu gair o ddiolch ar ran y rhai hynny, fel ni'n dau, a dderbyniodd rodd o law ein Gweinidog a charedigion eraill o'r Priordy ychydig yn ôl.**

**Roedd tuag wyth ar hugain ohonom – rhai fel ni sy'n hunanynysu ac yn methu â bod yn bresennol yn y gwasanaethau ac yn colli hynny'n fawr iawn.**

**Bocs bach brown di-nod yr olwg oedd e. OND, arhosw  bch funud, o'i agor, y tu mewn roedd yna drysor – roedd yn llawn o ddanteithion o bob math ar gyfer te prynhawn, yn gorwedd ar bapur 'serviette' deniadol. Cacennau – ie, ond yn fwy na hynny dangoswyd Cariad, Caredigwrydd. Consýrn, sydd wedi codi calon ar yr adeg anghysurus sydd nawr yn bodoli.**

**Ga i ddyfynnu i orffen un o ddywediadau Mrs Davies, Erwau Glas, Y Borth, mam y Parchedig Dan Davies, Trimsaran, o barchus goffawdwriaeth, sef '*Diolch o waelod calon lawn'.***

**Des a Nansi**

**Yr Anrheg Nadolig Perffaith!!**

# Y TYST

**50c y rhifyn!**

**Archebwch ar gyfer 2021!**

**Cysyllter â Sulwyn Thomas**



# TE P'NAWN










***Amser dosbarthu'r Te P'nawn a'r bocs yn cynnwys danteithion hyfryd ynghyd â Chyfarchion yr Eglwys a Gweddi ar gyfer y rhai sy'n hunanynysu. Bocs bach brown cynhwysfawr iawn!!***





# Ifanc@Priordy



Helo bawb! Gobeithio eich bod yn cadw'n iach ac yn ddiogel yng nghanol yr hen gyfnod rhyfedd hwn!

## Trefniadau Nadolig!

(Os bydd y capel ar agor!)




Ni fydd modd cynnal Oedfa Nadolig debyg i'r arfer eleni ond mae trefniadau cyffrous eraill ar y gweill!

**Sul, 6 Rhagfyr am 10**
Oedfa Nadolig dan arweiniad PIP

**Sul, 13 Rhagfyr am 10**
Cwrdd Plant Nadolig.
Pawb i wisgo siwmper Nadoligaidd.

Ofnwn na fydd modd estyn croeso i'r teulu estynedig ymuno yn yr oedfaon hyn am eleni oherwydd prinder lle. Ond gobeithio y byddwch chi yno!





# Fedrwch chi gracio’r côd er mwyn dod o hyd i’r adnod?

*Hwyl am y tro. Cadwch yn ddiogel,*

*Beti-Wyn*

## YSGOL SUL AR ZOOM!




## HELEDD A RHIANNON AR DCDC







***Gweler y Rhwydwaith***

***Papur Priordy'n sgwrsio â***



## DENNIS JONES

## Ysgrifennydd Cynllun Cyfamodi'r Priordy

**PP: Rwyt ti a Rhian wedi bod gyda ni yn y Priordy ers peth amser nawr, Dennis. Gobeithio'ch bod chi wedi ymgartrefu yn ein cwmni!**

**DJ:** *Wel do wir, yn arbennig felly. Mae pedair blynedd wedi mynd heibio ers i ni symud o ardal Telford yn Swydd Amwythig. Mae Rhian a minnau wedi'n codi mewn capeli Cymraeg ac roedden ni'n awyddus i ymuno ag un ar ôl dychwelyd i Gymru – rhywbeth anodd dros ben i'w wneud yn Telford! Cawsom groeso mawr gan bawb yma yn y Priordy, yn enwedig y gweinidog Beti-Wyn. Rydyn ni'n teimlo'n hollol gartrefol yn eich mysg ac wedi gwneud llawer o ffrindiau newydd.*

**PP: Rhaid mynd i Dremadog yng Ngwynedd i ddechrau'r daith. Mae'r tŷ drws nesaf i'r lle gest ti dy eni, Dennis, yn un hynod!**


**DJ:** *Chi'n iawn. Yn y tŷ drws nesa i ni y cafodd* ***T E Lawrence neu Lawrence of Arabia*** *ei eni ym 1888 - tipyn o amser o 'mlaen i! Enw'r tŷ yna oedd Gorphwysfa - tŷ mawr o gerrig llwyd a newidiwyd yn ddiweddarach yn Snowdon Lodge. Daeth Lawrence yn adnabyddus am ei ran yng ngwrthryfel yr Arabiaid yn erbyn Ymerodraeth yr Otomaniaid yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Gwnaed ffilm ar ei fywyd, ffilm a enillodd saith gwobr Oscar. Ond symudodd ein teulu ni o Dremadog i Bwllheli cyn i mi gyrraedd fy mhen-blwydd yn ddwy oed ac yn y dref honno y ces i fy addysg gynradd ac uwchradd.*



**PP: Byddai'r hanesyn am dy fam a dy dad yn cwrdd a phriodi'n gwneud ffilm lawn gystal â *Lawrence of Arabia*, unrhyw ddydd, dybiwn i, Dennis!**


**DJ:** *Mae hynny'n ddigon gwir! Roedd fy nhad yn y Fyddin ac anfonwyd y Fyddin Brydeinig tua'r Gogledd yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Roedd fy mam yn byw mewn tref fach yn agos at Florence a*

*dyna lle cwrddodd y ddau. Cafodd fy nhad ganiatâd i fynd adref ond gwrthododd gan ei fod eisiau aros gyda mam. Mewn amser gofynnodd i Nonno, fy nhaid Eidalaidd, a allai briodi mam. Dywedodd Nonno wrtho am ddod yn ôl mewn blwyddyn i'r diwrnod os oedd e eisiau priodi mewn gwirionedd. Yn union flwyddyn i'r diwrnod dywedodd fy nhad wrth fy nain ym Morfa Bychan ei fod yn mynd i'r Eidal i briodi Bruna, fy mam. Pan gyrhaeddodd yr Eidal cafodd wireddu'i ddymuniad ac roedd rhaid iddyn nhw briodi deirgwaith cyn dychwelyd i Forfa Bychan!*



**PP: Mae honno'n stori ryfeddol. A dyna pam felly rwyt ti'n gallu siarad Eidaleg?!**
**DJ:** *Yn hollol. Fe ddysgodd fy nhad Eidaleg a chododd fy mam y Saesneg a pheth Cymraeg. Dw i'n cael cyfle i ymarfer fy Eidaleg yn awr wrth fynd ar wyliau a hefyd wrth siarad ag Emlyn Schiavone, un arall o aelodau'r Priordy!*

**PP: Roedd chwaraeon yn mynd â dy fryd yn nyddiau ieuenctid, yn enwedig pêl-droed. Mae'n siŵr bod ambell i atgof arbennig gennyt?**
**DJ:** *Roeddwn wrth fy modd gyda chwaraeon – pêl-droed, traws gwlad, athletau a badminton. Ces gynrychioli'r sir ynddyn nhw a Gogledd Cymru mewn pêl-droed ac athletau. Fy nghariad mawr oedd pêl-droed. A phrofiad arbennig i fachgen ysgol fel fi oedd chwarae pêl-droed gyda Nantlle Vale ar yr un adeg ag* ***Orig Williams, neu El Bandito****, yr ymaflwr codwm proffesiynol a pherfformiwr gwerinol Cymreig o Ysbyty Ifan. Dw i'n cofio'n dda hefyd chwarae yn erbyn Porthmadog pan oedd yr anfarwol* ***Mel Charles*** *gyda nhw. Am chwaraewr! Roeddwn yn benderfynol o fod yn athro Addysg Gorfforol. Doedd dim campfa yn yr ysgol ym Mhwllheli nac athro addysg gorfforol arbenigol ar gyfer y bechgyn ychwaith! Treuliais oriau ar fy mhen fy hun ar lan y môr yn ymarfer gymnasteg!*





**PP: Mynd wedyn i'r coleg yng Nghyncoed, Caerdydd, i gymhwyso fel athro Addysg Gorfforol a gwneud ffrindiau gydol oes, gan gynnwys dod o hyd i wraig!**

**DJ:** *Ie. Dyma ble cwrddais i â Stan Morgan-Jones, Emyr Huws Jones (Ems), a'r diweddar Alun Sbardyn Huws a dod i'w hadnabod yn dda. Roedden nhw'n aelodau o'r Tebot Piws un o grwpiau cyntaf Pop Cymraeg yn y 1970au. Roedd Dewi (Pws) Morris), aelod arall o'r grŵp, yn y Coleg hefyd ond nid yn yr un flwyddyn. Yn bwysicach fyth dyma ble cwrddais i â Rhian, hi yn ei blwyddyn gyntaf a minnau yn fy ail flwyddyn - ac mae'r gweddill yn hanes!*




**PP: Mae gwreiddiau Rhian yn gadarn yn Sir Gâr, wrth gwrs.**
**DJ:** *Ydyn, yn Llanddarog. Roedd tad Rhian, sef Meurig Voyle, yn un o gymeriadau mwyaf lliwgar y diwydiant amaeth. Roedd yn un o weithwyr gwreiddiol Undeb Amaethwyr Cymru. Symudodd i Sir Ddinbych yng nghanol y 1960au a bu'n ysgrifennydd Siroedd Dinbych a'r Fflint am bron i chwarter canrif. Bu'n flaenor am flynyddoedd mawr yng Nghapel Newydd, Llanddarog a Chapel Mawr, Dinbych. Bu Rhian yn byw yn Nimbych hefyd a threuliodd rhyw ddwy flynedd olaf ei haddysg uwchradd yno cyn mynd i'r Coleg. Ac mae Rhian a Luned (Voyle) Thomas, aelod arall yn y Priordy ac yn wreiddol o Landdarog, yn gyfnitherod.*



**PP: Yn deall hefyd dy fod wedi arloesi yn y coleg wrth wneud dy ymarfer dysgu.**
**DJ:** *Wel do. Roeddwn ni yn un o'r grŵp cyntaf yn y Coleg yng Nghaerdydd i wneud ein hymarfer dysgu Addysg Gorfforol drwy gyfrwng y Gymraeg. I Hywel Roberts, Pennaeth Addysg y Coleg, a fu'n ffrind da i mi, a John Price, Adran Addysg Gorfforol, mae'r clod am hynny. Ysgolion uwchradd yng Ngwynedd - ym Motwnnog, Porthmadog a Phwllheli oedd y rhain gyda llaw.*

**PP: Buest ti'n dysgu yn Swydd Essex ac yna yn Telford lle bu cyfnod o arallgyfeirio yn dy hanes.**

**DJ:** *Dyna ni. Ar ôl blynyddoedd lawer fel Athro a Phennaeth Adran Addysg Gorfforol fe ddes yn Bennaeth Blwyddyn a Phennaeth Cynnal Addysg. Enillais radd mewn Cyfarwyddo a Chynghori drwy astudio'n rhan amser a chefais dymor yn rhydd i ennill tystysgrif mewn anghenion addysgol arbennig. Treuliais flynyddoedd olaf fy nghyrfa mewn Ysgol Arbennig. Mwynheuais y profiadau hyn yn fawr iawn, rhaid dweud.*

**PP: Fe godoch chi'ch teulu yn Swydd Amwythig. Beth ydy hanes y plant erbyn hyn?**
**DJ:** *Cafodd Dafydd ei eni yn Llanelwy, yn yr ysbyty ble roedd mam Rhian yn gweithio, ac Aled yn Yr Amwythig. Mae Aled ar Fwrdd yr RBS yn yr Alban yn arbenigo mewn Twyll a Dafydd yn Arolygydd Ditectif gyda'r Heddlu yn Yr Amwythig ac mae tri o fechgyn ganddo, Rydyn ni'n mwynhau ymweld â'r meibion yn fawr iawn.*

**PP: Ac i orffen, Dennis, tybed sut wyt ti a Rhian yn mwynhau treulio'ch oriau hamdden?**
**DJ***: Rydyn ni'n arbennig o hoff o deithio ac wedi cael y cyfle i grwydro'r byd! Mae carafanio'n un o'n hoff bethau hefyd. Ar ben hynny, dw i'n hoff o chwarae golff a cherdded a gwylio chwaraeon. Dw i hefyd yn canu'r gitâr ac, fel Sulwyn, yn dysgu chwarae'r iwcalili. Efallai y bydd Beti-Wyn yn gofyn i'r ddau ohonon ni berfformio deuawd ryw ddydd!! Hefyd, gyda llaw, rwy'n dysgu chwarae'r mandolin.*



***Wel, diolch yn fawr iawn i ti Dennis am ateb y cwestiynau. Mae dy wreiddiau yng Nghapel Penlan ym Mhwllheli pan oedd y Parchedigion Ted Lewis Evans a Hedley Gibbard yn weinidogion yno a lle bu dy dad yn ddiacon ffyddlon am gyfnod maith. Ein dymuniadau da i ti a Rhian yn awr wrth i chi fwrw gwreiddiau newydd yn y Priordy. A phob hwyl i ti, Dennis, yn dy swyddogaeth fel Ysgrifennydd y Cyfamodi – cynllun sydd mor werthfawr i ni yn y Priordy.***

***YN DYMUNO CYFAMODI?***
***Mae croeso i chi gysylltu â***
**DENNIS**

## TUDALEN BLAEN


### *Rheswm Meinir Jones dros ddewis ‘Gwinllan a roddwyd i’m gofal yw Cymru fy ngwlad….’*



Pan ofynnwyd i mi ddewis dyfyniad ac ysgrifennu pwt amdano ar gyfer Papur Priordy, roedd un dyfyniad yn sefyll allan, a hynny am fy mod yn gweld y geiriau hyn bob dydd! Pan symudodd Elis a fi i’n cartref cyntaf dros chwarter canrif yn ôl, cawsom anrheg arbennig gan fy rhieni. **Sampler** ydoedd a




gafodd ei frodio gan y ddiweddar Mair Roderick, yr oedd ei doniau pwytho cain i’w gweld ar wisg yr Archdderwydd rai blynyddoedd yn ôl. Y geiriau ar y sampler yw’r dyfyniad enwog gan Saunders Lewis o’i ddrama ‘Buchedd Garmon’, sef “*Gwinllan a roddwyd i’m gofal yw Cymru fy ngwlad, i’w thraddodi i’m plant ac i blant fy mhlant yn dreftadaeth dragwyddol.”* A minnau’n gyfarwydd iawn â gwaith **Saunders Lewis** ac wedi astudio nifer o’i ddramâu yn yr ysgol a’r coleg, roedd yr anrheg yn un addas iawn, ond yn ogystal roedd arwyddocâd pellach i’r dewis o ddyfyniad. Tra bod Saunders Lewis yn gweld Cymru fel gwinllan, roedd fy rhieni hefyd yn ystyried bod ein cartref cyntaf yn rhyw fath o winllan i ni. Er i ni symud maes o law i gartref mwy o faint wrth i’n teulu ni dyfu, mae’r sampler i’w weld o hyd mewn lle amlwg a byddaf yn ei drysori am byth.



Nid Saunders Lewis yw’r unig un sydd wedi defnyddio’r trosiad o Gymru fel gwinllan. Un arall a wnaeth hynny oedd **Lewis Valentine**, ac roedd y ddau



ohonynt yn gyd-ymgyrchwyr yn y mudiad cenedlaetholgar ac wedi gweithredu gyda’i gilydd ym Mhenyberth. Gweinidog oedd Lewis Valentine, ac fe ddefnyddiodd ef y trosiad yn yr emyn poblogaidd: “*Dros Gymru’n gwlad, O Dad, dyrchafwn gri, y winllan wen a roed i’n gofal ni.”* Mae’r emyn hwn yn golygu llawer i mi’n bersonol gan i ni ei ganu yn angladd fy nhad dros ugain mlynedd yn ôl erbyn hyn a byddaf bob amser yn cofio’n annwyl amdano wrth ganu neu glywed y geiriau. Poblogeiddiwyd yr emyn gan **Dafydd Iwan** dan y teitl *“Gweddi dros Gymru”* ac yn y cyfnod sydd ohoni, mae’n bwysicach nag erioed ein bod yn offrymu gweddi dros ein gwlad, ac yn cofio’n dyletswydd i ofalu am y winllan.



## Anne Loughran....

### CEFNOGI GWAITH DOLEN CYMRU



Cynhelir ocsiwn gelf ddigidol cyn hir i gefnogi Gwaith diflino Dolen Cymru yn Lesotho.

Yn ystod y cyfnod hwn mae’r Ddolen yn weithgar yn cefnogi athrawon mewn ardaloedd gwledig Thaba Tseka a Maseru trwy gyfrwng Whatsapp, Zoom ac ati! Mae’r ysgolion wedi bod ar gau ers mis Mawrth, a dim ond rhai dosbarthiadau sydd wedi gallu dychwelyd i’r ysgol. Er hyn, gyda nawdd Dolen mae’r athrawon wedi bod yn creu adnoddau i helpu eu dysgwyr, a chefnogi ei gilydd yn ddigidol. Bydd rhai ohonynt yn cyfrannu at Gynhadledd Addysg Rithiol Dolen Cymru, 19 Tachwedd 2020.

Gyda chyn lleied o gartrefi o fewn cyrraedd cyflenwad o ddŵr glân, mae Dolen Cymru, gyda chydweithrediad y Groes Goch, hefyd yn weithgar yn helpu cymunedau i gasglu’r dŵr glaw prin a dysgu pwysigrwydd golchi dwylo. Tasg enfawr yn wir!



Felly diolch yn fawr i artistiaid fel **Walford Davies** (tad Beti-Wyn) am eu cyfraniad.  Ac nid yw’n rhy hwyr i chi gyfrannu!

Cysylltwch â Sharon Flint trwy waleslesotholink.org/art_auction, os gwelwch yn dda i gefnogi.

***Diolch yn fawr i Anne sy’n wirfoddolwr gyda Dolen Cymru am y nodyn. Mae’r llun yn dangos Anne yn hyfforddi athrawon mewn ysgol gynradd ddiarffordd ger Khatse yn Lesotho fis Mawrth diwethaf! Bu newid byd ers hynny!***

***Darlun – Enghraifft o waith yr artist Walford Davies***

**MENTER NEWYDD**

**Diolch i'n Gweiniog am drefnu Cwrdd Gweddi dros Zoom ac i bawb am ymuno a chymryd rhan. Bu'n gyfarfod cyfoethog a bendithiol.**

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Lun 2 Tachwedd 2020 am 7 yr hwyr. Cewch y ddolen Zoom mewn da bryd.**

**Meddai'n Gweinidog:**

***Rwy'n siŵr eich bod yn cytuno bod angen gweddi arnom ar hyn o bryd yn fwy nag erioed wrth i ni geisio dod i delerau â'r pandemig ofnadwy sydd wedi cydio yn ein byd. Does dim rhaid i neb deimlo'n rhy ddihyder i ymuno a ni o gwbl. Does dim angen i chi gymryd rhan yn gyhoeddus os nad ydych yn dymuno ond manteisio ar y cyfle i ymdawelu. Cofiwch fod Duw yn siarad â ni drwy'r tawelwch. Fe fydda i'n agor y Cwrdd Gweddi ac yna'n gadael y cwrdd yn agored i gyfraniadau (gweddi/darlleniad/emyn) neu dawelwch i fyfyrio. Gobeithio y cawn eich cwmni.***



**DIOLCHGARWCH AR LEIN!**



**Bu'n Gweinidog yn brysur yn cynnal gwasanaethau diolchgarwch dros Zoom eleni gydag Ysgolion Penboyr a Hafodwennog (gyda'i gilydd|) ac Ysgolion Bancyfelin, Llangain a Llansteffan (gyda'i gilydd|).**

**Mae hefyd yn paratoi gwasanaeth *YouTube* unwaith y mis ar gyfer Ysgol y Dderwen sydd ar gael i ysgolion eraill os ydynt yn dymuno.**

**Richard E Huws…**



# Atgofion am Y Priordy (1956-1968)

**DIOLCH** i Alun Charles am y gwahoddiad caredig, ond annisgwyl braidd, i gyfrannu ychydig o atgofion am fy mhlentyndod i *Bapur Priordy*.

Symudais i'r dref i fyw o ardal Rhydargaeau pan oeddwn yn 7 oed, a hynny ar ganol y 1950au. Er i mi gael fy medyddio yn Eglwys Capel-y-Groes, Abergwili, cefais fy magu yn y Capel, gan fynychu Bwlch-y-corn dan arweiniad ysbrydoledig Y Parchg Simon B. Jones. Ar ôl i ni symud i'r dref daeth Mam yn aelod yn Y Priordy a'n Nhad yn Eglwys St. Pedr. Efallai bydd rhai o aelodau hŷn y Capel yn cofio Mam – Megan Hughes, 36 Francis Terrace.

Bûm yn mynychu Capel y Priordy am tua 12 mlynedd cyn i mi adael am Aberystwyth yn 1968. Mae gennyf atgofion hapus iawn o'r cyfnod hwnnw, ac er ein bod yn griw o blant eithaf direidus, bu dylanwad y Capel yn un positif iawn ar ein bywydau, ac mae fy nyled yn fawr iawn iddo.

Roeddem yn ffodus i gael arweiniad gan ddilyniant anrhydeddus iawn o weinidogion galluog. Y cyntaf rwy'n ei gofio yw'r diweddar Barchg Cyril G. Williams, ac roedd ei fab Martyn yn gyd-ddisgybl gyda mi yn Ysgol Gymraeg Pentre-poeth. Gadawodd Cyril i fynd i swydd ym Mhrifysgol Caerdydd yn Hydref 1958, cyn ymfudo i Ganada â chymryd swydd debyg ym Mhrifysgol Carleton, Ontario. Yn rhyfedd iawn roedd ein llwybrau i groesi unwaith yn rhagor yn y 1970au, wrth iddo ef a'i briod Irene symud i Dregaron i fyw, lle roedd Eirlys a minnau hefyd wedi cartrefu ers Awst 1974. Daethom yn ffrindiau agos am gyfnod o 5 mlynedd tra bu'r pedwar ohonom yn byw yno.

Dilynwyd Yr Athro Cyril Williams gan Y Parch W. B. Griffiths, a gymerodd yr awennau yn 1959, cyn i yntau hefyd adael ymhen pum mlynedd i gymryd swydd ddarlithio yng Ngholeg Coffa'r Annibynwyr yn Abertawe. Bu farw'n ŵr ifanc 57 oed yn 1966. Dilynwyd W. B. gan Y Parchg T. James Jones yn 1965. Fel fy ngweinidog roedd Jim yn bresennol yn fy mhriodas yn 1971.

Roedd y tri gweinidog yn rhoi pwyslais mawr ar y Cwrdd Plant, a gynhaliwyd yn fisol. Mrs Evans, North Parade, mam Iris a Rhian, oedd yn ein hyfforddi’n drwyadl iawn. Roedd hi’n ddynes arbennig iawn. Byddai’n disgwyl i ni i gyd gymryd rhan, bach neu fawr, ac yn amlach na pheidio gofynnai i mi ddarllen emyn allan o *Ganiedydd Newydd yr Ysgol Sul.* Pan oeddwn yn gymharol ifanc disgwyliai i mi adrodd ond y pennill cyntaf, ac yna dweud *ac yn y blaen.* Ond, pan oeddwn yn hŷn, mynnai fy mod yn darllen pob pennill. Cofiaf un cyfarwyddyd - roedd hi’n fy atgoffa ei bod yn hollbwysig cofio dweud *Rhif yr Emyn* ar y dechrau. Roedd hyn yn ddirgelwch i mi gan fod y rhifau i’w gweld ar y bwrdd emynau, ond roedd rhaid ufuddhau!

Byddai’r gweindog yn ceisio rhoi neges bwrpasol ar ganol y gwasanaeth, a chofiaf un tro yn arbennig pan fu Mr Williams yn sôn am y pelican yn yr anialwch, gan ofyn i ni blant enwi adar eraill oedd yn cael eu nodi yn y Beibl. Aeth fy llaw i fyny’n syth i gynnig *vulture* – dwn i ddim o ble daeth hwnna, ond roedd e’n ateb cywir!  Rwy’n meddwl mai colomen oedd gan y gweinidog dan sylw, ond cafodd fy ateb innau dderbyniad da o chwerthin iach gan y gynulleidfa.

Roedd yr Ysgol Sul hefyd yn bwysig i ni, ac nid oes gennyf unrhyw gof am wrthwynebu mynd yno. Pan oeddwn yn ifanc iawn arferai Helen Protheroe a’i chwaer Janet alw amdanaf er mwyn cyd-gerdded i’r Priordy. Pan oeddwn yn laslanc roedd yr Ysgol Sul hefyd yn atyniad ychwanegol gan ei bod yn rhoi cyfle i gwrdd â merched – prin y byddem yn eu gweld yn ystod yr wythnos gan fod yr Ysgol Ramadeg yn fechgyn yn unig. Roedd gan Mrs Evans, North Parade, ran bwysig hefyd yn y gwaith o redeg yr Ysgol Sul, ond Mr Arnallt Owen oedd yn gyfrifol am y dosbarth hynaf y rhan fwyaf o’r amser. Roedd Arnallt yn brifathro ar Ysgol Gynradd Llanddarog, ond roedd edrych ar ôl criw o fechgyn yn eu harddegau yn fwy o sialens iddo na gofalu am blant iau. Byddem yn chwarae lan yn aml, ond Arnallt gafodd y gorau arnaf pan wnaeth daro bargen â mi – un na fedrwn ei gwrthod. Roedd yn gwybod fy mod yn hoff o bêl-droed, yn ddilynwr y *Swans*, ac yn 1964 roedd y tîm ar rediad da yng Nghwpan Lloegr. *‘Nawrte Richard’* meddai unwaith ‘*Os wyt ti’n fodlon byhafio am y mis nesaf, mi af â ti i weld y Swans os cyrhaeddan nhw y Cup Final’.* Ufuddfheais fel oen a bu Mr Owen yn driw i’w air. Cyrhaeddodd y *Swans* y semi-final, a chefais fynd gydag e i Villa Park, Birmingham. Collodd Abertawe 1-2 i Preston North End – tybed a fyddai Mr Owen wedi mynd â mi i’r ffeinal yn

Wembley pe baent wedi ennill?

Roedd disgwyl i ni fynychu'r oedfaon hefyd, yn enwedig yn ystod y cyfnod paratoadol cyn i ni gael ein derbyn yn aelodau llawn. Byddwn gan amlaf yn eistedd ar y galeri, yn yr ail res, ychydig i'r dde uwchben y cloc gyda'm ffrindiau da Myrddin Thomas a Verdi Thomas. Yn sêt fawr y diaconiaid eisteddai Ben Howell MA, ein prifathro – felly roedd




rhaid ceisio ymddangos ein bod yn byhafio! Ond byddem yn cael cerydd yn aml iawn am greu sŵn gan Annie, dynes o Wellfield Road, a fyddai'n eistedd o'n blaen a hynny am ein bod yn sibrwd â'n gilydd a bwyta melysion yn ddiddiwedd – *Mintoes* a *Murray Mints* oedd y ffefrynnau. Bu'n rhaid talu'r pwyth yn ôl i Annie druan am ein ceryddu! Byddai hi wastad yn gwisgo het gyda rim llydan o'i chwmpas, a gan ein bod yn eistedd reit y tu cefn iddi, byddai modd i ni rolio ein papurau melysion yn fach iawn, a'u gosod yn ddelicêt ar ei het o fewn y rim. Doedd hi ddim callach, hyd nes iddi fynd lawr y grisiau i'r cyntedd, a phobl wedyn yn ei holi beth ar y ddaear oedd y degau o beli bach oedd yn llenwi ei het! Er ei bod yn gandryll ar y pryd, rwy'n meddwl i ni gael maddeuant ganddi yn y diwedd. Ond rwy'n cofio iddi fynd i weld Mam i gwyno amdanom ein tri.

Mae fy atgofion am y Priordy'n rhai melys. Un budd a ddaeth o'r cloi lawr oedd y cyfle i wrando ar ambell oedfa o'r Capel a ddarlledwyd ar y We.

***MAE'N*** dda gweld y Capel yn dal i ffynnu dan arweiniad medrus eich gweinidog presennol, Y Parchg Beti-Wyn. Rwy'n siŵr fod plant presennol y Priody yn byhafio'n well na'm cenhedlaeth innau – ond mae'n anodd iddynt efelychu rhai o'n campau ni gan nad oes neb bellach yn gwisgo hetiau i'r oedfa! Pob bendith ar gyfer y dyfodol.

***Diolch yn fawr iawn i Richard am yr erthygl ddifyr hon. Yn wreiddiol o Gaerfyrddin, mae'n byw ym mhentref Bont-goch, Ceredigion. Treuliodd ddeugain mlynedd ar staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth cyn ymddeol Mae'n arbennig o hoff o chwaraeon a'i gyfrolau'n cynnwys The Football and Rugby Team Nicknames of Wales, The Football and Rugby Playing Fields of Wales, Caneris Melyn Trefeurig, ac Enwau Tai a Ffermydd Bont-goch. Mae'n un o gefnogwyr brwd Yr Elyrch!***

**AR Y WE: www. priordy.org *(yn cynnwys Papur Priordy)***

**Gareth Gravell…**



## Y CERDDOR A'R COVID


Fel pob cyfrwng creadigol fe ddioddefodd y cyfrwng cerddorol ergyd drom oherwydd y cloi i lawr yn sgil y feirws Covid. Ers saith mis bellach mae'r neuaddau lle cynt y clywid seiniau cantorion, corau, cerddorfeydd a bandiau, yn dawel - yn rhyfeddol o dawel a dweud y gwir. Am y tro cyntaf erioed, am wn i, bu'n rhaid rhoi terfyn ar adloniant o'r fath er mwyn ceisio delio â'r feirws ymosodol.

Yn wahanol i'r sêr mawr rhyngwladol, effeithiwyd yn ddychrynllyd ar gerddorion sy'n ddibynnol ar greu cerddoriaeth a pherfformio er mwyn ennill bywoliaeth. Efallai i chi glywed ar y newyddion bod ambell



wleidydd wedi awgrymu y dylai'r cerddorion hyn ailhyfforddi er mwyn ceisio gwaith arall! Mae nifer ohonynt yng Nghymru - bandiau ac unigolion wedi mentro i'r byd proffesiynol i ddilyn gyrfa er mwyn gwireddu breuddwydion eu plentyndod.

Un o'r hanfodion i gerddor, wrth gwrs, yw'r cyfle i berfformio'n fyw o flaen torf o bobl, er enghraifft Gŵyl Glastonbury, ac yna deithio'r wlad ac efallai'r byd yn perfformio i gynifer posib o ddilynwyr - ond erbyn heddiw mae'r llwyfannau hyn yn dawel iawn.



Yng Nghymru roedd gohirio Eisteddfodau'r Urdd a'r Genedlaethol yn ergyd drom iawn. Dyma uchafbwynt y flwyddyn i sawl cerddor a pherfformiwr - y ddwy ŵyl fwyaf yn Ewrop sy'n cynnig cyfleoedd i artistiaid



newydd a phrofiadol ddangos eu doniau a datblygu eu sgiliau cerddorol. Roedd bod heb y ddau ddigwyddiad yma eleni'n drist iawn gan fod cynifer yn eu hystyried yn uchafbwynt creadigol a chymdeithasol yng nghalendr y Cymry.

Mae'r cyfyngiadau cymdeithasol wedi effeithio'n ehangach ar y gymuned gerddorol hefyd - ar sinemâu a chlybiau, ar werthiant a hysbysebu gan arwain at leihad sylweddol mewn gwerthiant recordiau sydd, yn ei dro, wedi amharu'n wael ar siopau recordiau.

Felly sut mae ymdopi yn yr hinsawdd anodd hon? Mae'n siŵr eich bod wedi sylwi wrth chwilota trwy Gweplyfr bod nifer o gerddorion yn postio fideo o'u hunain yn chwarae cân o'u heiddo fel modd i leihau'r diflastod a ddaeth yn sgil y cloi i lawr. Mae cerddoriaeth yn medru bod yn fodd reit defnyddiol i gadw a chynnal ysbryd a hwyl. Felly, mae cymunedau ar lein wedi ymddangos oherwydd yr awydd sydd yna i greu a rhannu cerddoriaeth er gwaetha'r sefyllfa a hefyd ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i rannu profiadau cerddorol.

Mae rhai cerddorion wedi mynd ymhellach a llwyddo i ennill arian drwy raeadru fidios o sioeau ar *YouTube*, er enghraifft, er mwyn cadw cysylltiad â'u dilynwyr. Mae eraill wedi cael incwm wrth bostio gwersi offerynnol er mwyn cadw dau ben llinyn ynghyd.

Mae'r sefyllfa yn y byd cerddorol yn hynod o anodd ar hyn o bryd. Er hynny, mae angerdd ein cerddorion dros eu crefft a'u hoffter ohoni wedi'u hysbrydoli hyd yn oed ynghanol Covid-19 i fynd ati gyda mwy o arddeliad nag o'r blaen.

Ryw ddydd bydd hyn ar ben. Rywbryd byddwn eto'n mynychu nosweithau llawen a chyngherddau gyda ffrindiau. Bydd yr Eisteddfodau yn denu cystadleuwyr a pherfformwyr unwaith yn rhagor a bydd neuaddau pentref yn atsain sain corau a chantorion a bandiau.



Un peth sy'n sicr, mae angen cerddoriaeth ar y byd yn fwy nag erioed heddiw ac edrychwn ymlaen at gyfnod pan allwn edrych yn ôl ar y dyddiau hyn gyda balchder wrth wrando ar gerddoriaeth a grëwyd o ofid mawr Covid.

**DAL ATI!**

**Cofiwch fod y gwasanaethau digidol o Sul i Sul yn parhau ar gyfer y rhai nad ydynt yn gallu dod i'r Cwrdd ac yn hunanynysu.**



**Diolch i'n Gweinidog am sicrhau hyn.**

# APÊL TEGANAU NADOLIG
# CYNGOR SIR GÂR

Byddwn yn cefnogi'r un apêl eto'r Nadolig
hwn ac yn casglu fel a ganlyn

**DYDD SUL 22 TACHWEDD 2020**

**Croeso i chi ddod â'ch anrhegion i'r capel a'u gosod yng nghist car Beti-Wyn**



**Bydd tîm ohonom hefyd yn mynd o amgylch y dref rhwng 12 a 2 o'r gloch ar yr un Sul i gasglu anrhegion o ddrws i ddrws. A wnewch chi roi gwybod i'n Gweinidog os hoffech i rywun alw heibio'ch tŷ chi, os gwelwch yn dda.**

**Pa fath o anrhegion ydyn ni'n chwilio amdanynt?**
Anrhegion ar gyfer pob oedran; o fabanod i fyny at bobl ifanc yn eu harddegau.


Byddem yn ddiolchgar **pe baech chi ddim** yn lapio'r anrhegion gan y byddant yn cael eu dosbarthu gan y tîm o wirfoddolwyr sy'n gweithio ochr yn ochr â'r teuluoedd.

**A wnewch chi sicrhau bod y teganau yn rhai newydd os gwelwch yn dda a heb eu lapio.**


**Awgrym o bris - £5 yr anrheg**

**Diolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth**

## RHODDION I’R BANC BWYD
## YN DILYN EIN GŴYL DDIOLCHGARWCH



Carmarthen foodbank
Banc Bwyd Caerfyrddin



Carmarthen foodbank
Banc Bwyd Caerfyrddin



Carmarthen foodbank
Banc Bwyd Caerfyrddin

# GAIR O DDIOLCH

**Diolch o galon i chi, a phawb a fuodd yn rhan o'r casgliad cynhaeaf.**
**Miriam Jones**
***Cynorthwy-ydd – Banc Bwyd Caerfyrddin***

i



# Diwrnod Prynu Dim Byd!



Mae pob diwrnod o'r wythnos drwy'r flwyddyn yn dathlu rhyw achlysur neu'i gilydd. Yma yng Nghymru er enghraifft, rydyn ni newydd ddathlu Diwrnod T Llew Jones ar 11 Hydref a Diwrnod Shwmae Sumae ar 15 Hydref. Gellir mynd ymlaen ac ymlaen. Yn wir, mae rhestr y dyddiau dathlu o ddydd i ddydd ledled y byd yn ddiddiwedd - o Ddydd Calan ddechrau mis Ionawr hyd at Ddiwrnod Siampên ar ddydd olaf mis Rhagfyr! Ac ymysg y dyddiau hyn mae Diwrnod Prynu Dim Byd!

Tybed pryd oedd y tro diwethaf i chi beidio â gwario unrhyw beth am ddiwrnod cyfan? Ydy hi'n bosibl gwneud hynny am bedair awr ar hugain y dyddiau hyn? Wel mae cefnogwyr Diwrnod Prynu Dim Byd yn credu hynny. Ac yn fwy na hynny, maen nhw'n teimlo y dylen ni geisio atal rhag prynu unrhyw beth am ddiwrnod cyfan!

Yn Vancouver, Canada ym 1992 y cafodd y diwrnod arbennig hwn ei sefydlu gan arlunydd o'r enw Ted Dave. Bu'r cylchgrawn Adbusters yn ei hyrwyddo. Fe gynhaliwyd y diwrnod yn wreiddiol ym mis Medi ond ar ôl pedair blynedd cafodd ei symud i fis




Tachwedd – yn groes i ddymuniad Ted Dave, mae'n debyg, gan nad oedd e'n dymuno i'r diwrnod gael ei ystyried fel math o ŵyl wrth-Nadolig. Glynu at y mis newydd wnaethpwyd! Erbyn hyn mae'n ddiwrnod sy'n cael ei ddathlu dros Ogledd America ac Ewrop ar y Dydd Gwener ar ôl Gŵyl Ddiolchgarwch yr Unol Daleithiau – ar yr un diwrnod â Dydd Gwener Du, sef 27 Tachwedd eleni. Mewn rhai rhannau o Ewrop, fodd bynnag, mae'r diwrnod yn cael ei ddathlu ar y dydd Sadwrn olaf ym mis Tachwedd.

Ar un olwg mae'n ŵyl yn erbyn Dydd Gwener Du, o leiaf yn yr Unol Daleithiau. Mae Dydd Gwener Du, yn ôl y cefnogwyr, yn mynd â'r enaid o fusnesau bach sy'n methu â chystadlu yn erbyn y gostwng prisiau didrugaredd sydd ar waith. Os oes rhaid siopa, eu cyngor yw i ni gefnogi'r siopau a'r busnesau annibynnol lleol.

Mae rhai pobl yn cwyno nad yw Diwrnod Prynu Dim Byd yn cyflawni dim byd mewn gwirionedd, ar wahân i ddal pobl yn ôl rhag siopa. Yn lle mynd i siopa ar y diwrnod hwnnw, maen nhw'n mynd allan ar y diwrnod neu'r penwythnos canlynol.

Mae'n siŵr mai prif bwynt y diwrnod yn y bôn yw tynnu sylw at ordreulio, fel y maint o bethau rydyn ni'n eu prynu. Mae'n ein hatgoffa ni o hynny'n ddigon pwrpasol.  A go brin ychwaith y byddai unrhyw un ohonom yn gwrthwynebu cael ein hatgoffa o'r angen i aros yn lleol a phrynu'n lleol.

Eich lle...
PRYNU'N LLEOL
BUY LOCAL
Your place...




**GROG NEWYDD**

**Mae grog newydd o Delme Thomas, arwr Cymru, Llanelli a'r Llewod ar gael bellach – y tro hwn yng nghrys y Llewod.   Bu ar daith deirgwaith gyda'r Llewod yn ystod ei yrfa. Mae fersiynau eisoes ar gael ohono yng nghrys Cymru a Llanelli.**

**Mae Delme, sy'n enw adnabyddus ym mhob cornel o'r byd, yn un o aelodau ffyddlon Capel Bancyfelin a hefyd yn ffrind da i ni yn y Priordy a'n Gofalaeth yn gyffredinol.**

## Diolch

Derbyniwyd rhodd ariannol hael iawn gael deulu'r ddiweddar Tina Charles er cof amdani. Cofiwn gyda diolchgarwch am gyfraniad Tina i fywyd yr eglwys yn Y Priordy, ac yn arbennig ei gwaith mawr gyda Papur Priordy. Rydym yn ddiolchgar iawn i  Alun a'r teulu am eu caredigrwydd mawr. Byddwn yn defnyddio'r rhodd yn ddoeth.

***Beti-Wyn***

**Y DDIWEDDAR IRIS HUMPHREY DAVIES**

Gyda thristwch y nodwn farwolaeth un o aelodau hyna'r eglwys, sef Iris Davies, a fu farw ar 21 Medi 2020 yng Nghartref Parc Y Llyn, Hwlffordd, lle derbyniodd ofal arbennig dros y ddwy flynedd diwethaf.

Roedd Iris yn hannu o Rydaman ac yn un o blant Capel Gellimanwydd. Wedi priodi â Humphrey Davies, buont yn byw mewn sawl ardal cyn ymgartrefu yng Nghaerfyrddin.

Nyrs oedd Iris wrth ei galwedigaeth a bu'n gweini ar y cleifion yn Ysbyty Heol y Priordy a Glangwili a chael ei hadnabod yn lleol fel Sister Davies.

Bu'r teulu'n ffyddlon iawn yng Nghapel Heol Dŵr am flynyddoedd lawer, ond daeth Iris â'i haelodaeth i'r Priordy rai blynyddoedd yn ôl er mwyn medru cerdded i'r capel a bod yn rhan o'r gymdeithas. Ymdaflodd ei hun yn llwyr i mewn i fywyd yr eglwys gan werthfawrogi popeth, o'r oedfa i'r bereindod, o'r Drws Agored i'r ymweld. Roedd hi bob amser yn bleser cael ei phresenoldeb, a byddai ei gwên lydan yn llonni'r cwmni.

Bu'n ymwneud â llawer o gymdeithasau yn y dref, gan gynnwys Merched y Wawr a bu'n aelod selog a Glwb Golff Caerfyrddin lle roedd ymhlith perthau eraill yn gyn-gapten, yn gyn-lywydd ac yn aelod oes.

Roedd Iris yn genedlaetholwraig gadarn ac yn frwd dros bopeth er lles Cymru. Roedd ganddi edmygedd mawr o Gwynfor Evans a'i safiad dros Gymru, heddwch a Christnogaeth.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i mab Ian, a'i briod Angela, ynghyd â'r wyron Steffan a Trystan.

Cynhaliwyd angladd breifat o dan y cyfyngiadau presennol yn Amlosga Parc Gwyn b'nawn Llun, 5 Hydref 2020. Gwasanaethwyd gan ei gweindiog.

Coffa da am wraig unigryw, a ffrind i bawb

**Ein Gweinidog**

## DYLETSWYDDAU

### GOFALWR / GWRESOGWYR Y MIS


| Tachwedd | | Rhagfyr | |
|---|---|---|---|
| Gofalwr | Gwresogwr | Gofalwr | Gwresogwr |
| Jayne Woods | Huw Jones | Alun Charles | Huw Michael |

## DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Tachwedd | 1 | | Rhagfyr | 6 | PIP |
| | 8 | | | 13 | Y Plant |
| | 15 | June Thomas | | 20 | Alun Charles |
| | 22 | Alwen Owen | Bore Nadolig | 25 | Y Bobl Ifainc |
| | 29 | Llinos Jones | | 27 | |

## CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tachwedd | Adrian Evans | Rhagfyr | Wyn Tegryn Evans |




**FY LLYFR ENGLYNION**
**gol**
**Mererid Hopwood**

**Medi 2020**
**Barddas: £6.95**

**Casgliad gwerthfawr ac unigryw o englynion i blant gan wahanol feirdd - rhai yn englynion y gall plant yr oed hwn uniaethu â hwy a rhai englynion traddodiadol sy’n debyg o fod ar gof cenedlaethau o blant. Yn ogystal, ceir geirfa a nodiadau i helpu’r darllenwyr ifanc.**

***DYMUNWN** yn* dda i bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn ac yn gaeth i'w haelwydydd ac i Mair Baston yn yr Ysbyty a Dan Evans a Henry Wilkins sy'n gwella ar ôl triniaeth yno. Ein cofion cynhesaf atoch i gyd.

Yn ein rhifyn diwethaf cawsom erthygl hynod o ddiddorol dan y pennawd **My Fair Lady** gan Irene Williams. Diolch hefyd i Eirlys Davies am deipio'r erthygl a'i hanfon ymlaen atom. A phleser yw llongyfarch Irene a dymuno'n dda iddi ar ddathlu'i phen-blwydd yn 99 oed ar 30 Hydref. Anfonwn ein cofion cynnes ati.



Bu Meinir Richards, yr athrawes a'r gyfansoddwraig, yn rhannu'i phrofiadau o alaru ar **Dechrau Canu Dechrau Canmol** ar **S4C** un nos Sul. Daeth y canu o Eglwys San Pedr, Caerfyrddin lle gwelwyd wynebau cyfarwydd iawn i ni yn y Priordy. Cafwyd hefyd gyfweliad â Tudur Dylan Jones lle bu'n sôn am ei brofiad yn cyfansoddi geiriau i gerddoriaeth o waith Meinir er cof am Elfyn, ei gŵr – geiriau sy'n ei helpu'n fawr i ddod i delerau â'i cholled. *Dagrau Tawel* yw enw'r cyfansoddiad – cân a ddaeth hefyd i'r brig yn *Cân i Gymru* 2004. Fe'i canwyd ar DCDC, fel yng Nghasnewydd yn 2004, gan Rhian Mair Lewis



Tymor yr Hydref a Diolchgarwch oedd thema rhaglen arall yng nghyfres gyfredol **Dechrau Canu Dechrau Canmol.** Cafodd y cyflwynydd Nigel Owens sgwrs ddiddorol â Heledd a Rhiannon Jones ar fferm y teulu. Cawsom gipolwg ar brysurdeb a phwysigrwydd gwaith amaethwyr a mynegodd y ddwy ferch eu dyled i Glwb Ffermwyr Ifainc Dyffryn Tywi ac i Gapel y Priordy, yn enwedig i Beti-Wyn am ei blaengaredd a'i gweithgarwch yn ystod y pandemig. Pwysleisiodd y ddwy mor bwysig yw diolch am gynnyrch byd amaeth sy'n rhoi cymaint i bob un ohonom. Daeth un o'r emynau o'r Priordy a gwelwyd hefyd ambell weithgarwch, fel yr *Oedfa yn ein Ceir.*

Tybed faint ohonoch sy'n dilyn **Ateb y Galw** ar **BBC Cymrufyw** lle mae pobl adnabyddus yn cynnig atebion i nifer o gwestiynau? Tro Robat Arwyn, y cerddor o Ruthun, oedd ateb y galw ychydig yn ôl. Fe yw cyfansoddwr nifer o'n caneuon mwyaf cyfarwydd, fel *Brenin y Sêr*, *Benedictus* ac *Anfonaf Angel*. Cyfansoddodd hefyd y gerddoriaeth i *Hwn yw Fy Mrawd* - cyngerdd agoriadol Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018. A phan ofynnwyd iddo'r cwestiwn: **Pryd oedd y tro diwethaf i ti grïo?** dyma oedd ei ateb:



***Nes i grïo a chwerthin 'mond 'chydig wythnosau'n ôl wrth ddarllen Gwirionedd gan Elinor Wyn Reynolds, nofel sy'n delio â galar a chlirio tŷ rôl colli rhiant. Ro'n i'n gallu uniaethu hefo popeth yn y llyfr.***

Bu Peter Hughes Griffiths yn sôn ar **Bore Cothi** ar **Radio Cymru** am y ffordd yr aeth ati, gyda thîm o wirfoddolwyr, i gasglu lluniau, gwybodaeth a hanes er mwyn creu'r wefan newydd **Stori Fawr Dre-fach Felindre** sy'n trafod y ddau blwyf, Llangeler a Phen-boyr. Peter fu'n gyfrifol am lunio'r adran ar *Enwogion a Phobl Leol* sy'n cynnwys hanes y ddeuawd adnabyddus Vernon a Gwynfor a gafodd gymaint o argraff ar Gymru yn y 70au a'r 80au. Mae'r wefan yn golygu fod stori Dre-fach Felindre ar gof a chadw am byth yn awr a gobaith Peter yw y bydd ardaloedd eraill yn dilyn yr esiampl hon ac yn datblygu gwefannau tebyg.



***LLONGYFARCHIADAU*** mawr i Rita Brown ar ddod yn hen fam-gu unwaith eto. Ganed Twm Gruffudd i Mared a Shôn Williams ar 19 Hydref 2020 yn Ysbyty'r Waun Caerdydd. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Rhagfyr i'n Gweinidog neu Alun Charles**

**CYDYMDEIMLAD**

**Estynnwn ein cydymdeimlad â Rhodri, Fiona, Betsan ac Anest ar golli mam Fiona a nain y merched, sef Eira Owen, Glan Conwy, yn ddisymwth ar 19 Hydref 2020. Meddyliwn am ei gŵr, John, a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth a'u hiraeth.**

**DIOLCH YN FAWR**



**Diolch i Beti-Wyn, Betsan James, Richard Huws, Hefina Phillips, Gwynn Bowyer a Tim Hayes am y lluniau'r mis hwn.**



# Y SULIADUR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Tachwedd | 1 | Bore | 10.00<br>10.30-11.00<br>11.15 -11.45<br>12.00-12.30 | Cymdeithas a Gweddi dros Zoom<br>Oedfa Ddigidol gyda'n Gweinidog<br>Ysgol Sul dros Zoom<br>Cwis PIP dros Zoom | |
| | 8 | Bore | 10.00<br><br><br><br>10.30-11.00<br>11.15 -11.45 | Cymdeithas a Gweddi dros Zoom - Cyfle i rannu gweddi a chymdeithasu gydag aelodau'r Tabernacl, Y Barri a Bethel, Penarth<br>Oedfa Ddigidol gyda'n Gweinidog<br>Ysgol Sul dros Zoom | |
| | 15 | Bore | Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog | | |
| | 22 | Bore | Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog | | |
| | 29 | Bore | Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhagfyr | 6 | Bore | Oedfa Adfent dan arweiniad PIP a'n Gweinidog<br>Casgliad at Ganolfan Galw-i-mewn Capel y Bedyddwyr Saesneg | |
| | 13 | Bore | Cwrdd Plant ar thema'r Nadolig gyda'n Gweinidog.<br>Casgliad at Yr Ysgol Sul. Casgliad olaf y flwyddyn | |
| | 20 | Bore<br><br>Hwyr | Oedfa Nadolig yr Ofalaeth yng Nghana gyda'n Gweinidog<br>Dathlu'r Nadolig yn y Gymuned yn Mancyfelin gyda'n Gweinidog am 6 | |
| | 27 | Bore | Oedfa Ddigidol gyda'n Gweinidog | |

**Oedfa Fyw dros Zoom ar gyfer y sawl sy'n hunanynysu**
**Oedfa Ddigidol hefyd yn hwyrach ymlaen**

Bore Nadolig
Oedfa Deulu yn y Priordy am 9 y bore

**CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC**
Mae cyfle i Blant yr Ysgol Sul a PIP ymuno â'r Oedfa Deulu bob Sul.
Bydd y Calendr yn ymddangos unwaith y bydd yr Ysgol Sul yn ailddechrau.

# DALIER SYLW

**Yn anffodus, ni fyddwn yn medru gwahodd cyfeillion / teuluoedd o'r tu allan i'r Ofalaeth i'r oedfaon dros Ŵyl y Nadolig eleni oherwydd prinder lle. Ymddiheuriadau mawr i'n cefnogwyr ffyddlon.**